**Deon Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig y Brifysgol**

Bydd Deon Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig y Brifysgol yn atebol i'r Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter, (cynradd), y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (matrics) o fewn fframwaith strategaeth, polisïau a gweithdrefnau cyffredinol y Brifysgol, a bydd yn gyfrifol am weithgareddau myfyrwyr ôl-raddedig y Brifysgol, fel a ganlyn:

**Prif Ddyletswyddau**

Datblygu Ysgol Raddedigion Caerdydd (yr elfen ôl-raddedig)

- Cefnogi'r broses o ddatblygu gweledigaeth academaidd a threfniant yr Ysgol Raddedigion newydd (yr elfen ôl-raddedig) a "Chynnig Caerdydd" penodol, gan weithio'n agos gyda'r Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter, y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, Gwasanaeth Ymchwil y Dyfodol, y Gwasanaethau Proffesiynol, yr Ysgolion, y Colegau, cynrychiolwyr myfyrwyr a rhanddeiliaid.

- Gweithio gyda'r Gwasanaethau Proffesiynol, rheolwyr prosiectau a Rhag Is-gangellorion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd a dulliau recriwtio i gynyddu nifer y myfyrwyr ôl-raddedig, gan gynnwys ond heb fod wedi'i gyfyngu i ystyried darpariaeth rhan amser, ymgysylltu â byd diwydiant, darpariaeth ryngwladol (ar y cyd â'r Rhag Is-Ganghellor Rhyngwladol), dyngarwch (mewn ymgynghoriad â DEVAR) a dulliau i gynyddu nifer y Canolfannau Hyfforddiant Doethurol / Partneriaethau Hyfforddiant Doeuthurol.

Cyflawni'n academaidd

- Cynnal llywodraethiant cadarn ac effeithlon i roi profiad rhagorol i fyfyrwyr, gan feincnodi perfformiad cyffredinol yn erbyn ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol perthnasol, a gweithio'n agos gydag arweinwyr a myfyriwr ôl-raddedig ym mhob disgyblaeth academaidd.

**Cyfrifoldebau**

- Cefnogi datblygiad yr Ysgol Raddedigion (yr elfen ôl-raddedig) ar y cyd â'r Rhag Is-Gangellorion, y Gwasanaethau Proffesiynol a rhaglen drawsnewid Caerdydd.
- Cynnig cefnogaeth academaidd ac arweinyddiaeth ar lywodraethiant i'r Ysgol Raddedigion weithredol (yr elfen ôl-raddedig).
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd sy'n cyd-fynd â chynnig unigryw i ôl-raddedigion yng Nghaerdydd, gan weithio gyda Cholegau a Rhag Is-Gangellorion.
- Cefnogi dulliau newydd o gynyddu niferoedd myfyrwyr ôl-raddedig, gan gynnwys ffyrdd o weithio Canolfannau Hyfforddiant Doethurol / Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol a hyfforddi carfannau.

- Rheoli polisi defnydd strategol o adnoddau at ddibenion hyfforddi ôl-raddedigion, gan weithio'n agos gyda Deoniaid eraill sy'n gweithio mewn Colegau ac ar faterion rhyngwladol yn ôl yr angen.
- Cynnal llywodraethiant cadarn ac effeithiol i roi profiad rhagorol i fyfyrwyr, a meincnodi perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.
- Sicrhau bod gweithgarwch sy’n ymwneud ag astudiaethau ôl-raddedig yn cael ei gynnwys yn amlwg ac yn briodol yn y portffolios canlynol: Ymchwil Arloesedd ac Ymgysylltu, Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a Materion Rhyngwladol.
- Ymwneud â myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid yn gyson er mwyn sicrhau uniondeb.

<u>Cymwyseddau, Gallu a Phrofiad Allweddol</u>

- Gradd ôl-raddedig ar lefel PhD neu brofiad cyfatebol.
- Gwybodaeth, profiad a gweledigaeth ddigamsyniol am brosesau sy’n ymwneud ag astudiaethau ôl-raddedig, profiad myfyrwyr, diwylliant ymchwil ac amgylcheddau goruchwylio.
- Y gallu i weithio ar y cyd ac yn effeithiol yng nghyd-destun fframweithiau prosiectau, gan gefnogi newid mewn amgylchedd cymhleth gyda gofynion cystadleuol, yn unol â strategaeth a chynllun trawsnewid newydd Caerdydd 2035.
- Y gallu i weithio'n gyflym gan ganolbwyntio ar ymgysylltu a chyflawni gwaith, wrth gynnal lefelau priodol o ran ansawdd.
- Profiad o gynnal gwaith sicrhau ansawdd a chael canlyniadau cadarnhaol, gyda'r gallu i weithio tuag at welliant parhaus.
- Gallu digamsyniol i arwain, gan ganolbwyntio ar berfformiad, effeithlonrwydd a dangosyddion perfformiad allweddol.
- Gweithio'n agos gyda’r gwasanaethau proffesiynol, staff academaidd, myfyrwyr a dan arweiniad y Bwrdd Gweithredol i hybu a chynnig gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Cyfathrebwr cryf sydd â’r gallu i wrando, ymgysylltu a chyd-greu atebion cadarnhaol, gan weithio ar yr un donfedd â phobl eraill.
- Y gallu i berswadio a dylanwadu, gan gynnwys ymdrin â sefyllfaoedd lle ceir gwrthdaro, lle nad oes consensws, a lle mae gofyn cymryd penderfyniadau heriol.
- Llysgennad cryf â sgiliau rhwydweithio, yn fewnol ac yn allanol, gyda'r bwriad o ddatblygu a diogelu arferion sy'n flaenllaw yn y sector.

**Rhinweddau a Sgiliau**

- Sgiliau rhyngbersonol ac arwain cryf, yn ogystal â'r gallu i ysbrydoli ac ysgogi eraill a meithrin perthynas waith effeithiol.

- Datrys problemau mewn ffyrdd medrus a’r gallu i gymryd y cam cyntaf, cyfrannu syniadau newydd a gwerthuso arferion, strwythurau, systemau a phrosesau cyfredol yn hyderus a rheoli newid.
- Y gallu i gynrychioli'r Brifysgol ar lefel uwch, yn fewnol ac yn allanol.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, a'r gallu i greu a chyfleu gweledigaeth glir a rhoi ymdeimlad o gyfeiriad a phwrpas i eraill.
- Dealltwriaeth ymarferol dda o brosesau cynllunio academaidd, llywodraethu, polisïau a gweithrediadau'r Brifysgol a'u heffaith ar weithgareddau rhyngwladol.

Bydd y rôl hon yn un 0.8 cyfwerth ag amser llawn am dair blynedd. Bydd deiliad y swydd yn cael lwfans blynyddol di-bensiwn o £6,000.